# Atebion i Gwestiynau Ysgrifenedig y Cynulliad i’w hateb ar 16 Tachwedd 2010

[R] yn nodi bod yr Aelod wedi datgan buddiant.
[W] yn nodi bod y cwestiwn wedi’i gyflwyno yn Gymraeg.

## Cynnwys


2 Cwestiynau i’r Dirprwy Brif Weinidog a’r Gweinidog dros yr Economi a Thrafnidiaeth

2 Cwestiynau i’r Gweinidog dros Iechyd a Gwasanaethau Cymdeithasol

2 Cwestiynau i’r Gweinidog dros Faterion Gwledig

## *Gofyn i'r Gweinidog dros yr Economi a Thrafnidiaeth*

**Nick Ramsay (Mynwy):** Pa drafodaethau y mae'r Gweinidog wedi'u cael â Llywodraeth y DU ynghylch defnyddio mastiau teledu i drawsyrru band eang di-wifr. (WAQ56730)

***Rhoddwyd ateb ar 06 Ionawr 2011***

Er nad wyf wedi cael unrhyw drafodaethau â Llywodraeth y DU am y mater hwn, mae fy swyddogion wedi chwarae rhan fawr yn y trafodaethau ag Arqiva (y cwmni sy'n berchen ar seilwaith mastiau teledu) ar y pwnc hwn. Rwy'n ymwybodol bod Arqiva yn datblygu prosiect i ddefnyddio ei fastiau teledu fel modd i gyflenwi band eang diwifr. Bwriedir arddangos y cynnyrch hwn y mis Rhagfyr 2010 ym Mhreseli (Sir Benfro) a bydd fy swyddogion yn mynd i'r digwyddiad hwnnw i benderfynu a ellid ei gynnwys yn ein cynlluniau.

**Nick Ramsay (Mynwy):** Pa drafodaethau y mae'r Gweinidog wedi'u cael â Llywodraeth y DU ynghylch cyflwyno'r drwydded 4G. (WAQ56731)

***Rhoddwyd ateb ar 06 Ionawr 2011***

Nid wyf wedi cael unrhyw drafodaethau â Llywodraeth y DU ar y mater hwn, gan mai cyfrifoldeb Ofcom yn unig yw penderfynu ar drwyddedu.

**Nick Ramsay (Mynwy)**: A wnaiff y Gweinidog roi'r wybodaeth ddiweddaraf am asesiad SEWTA o fforddiadwyedd gwasanaeth fesul awr ar reilffordd Cas-gwent. (WAQ56732)

***Rhoddwyd ateb ar 06 Ionawr 2011***

Mae Sewta yn cynnal astudiaeth ar welliannau i orsafoedd a gwasanaethau ar linell Cas-gwent. Un o'r opsiynau sy'n cael ei asesu yw cyflwyno gwasanaeth i deithwyr bob awr. Bydd yr astudiaeth yn ystyried amserlennu yn ogystal â seilwaith tebygol a chostau gweithredol. Bydd y gwaith hwn yn diweddaru'r gwaith dadansoddi a wnaed fel rhan o Strategaeth Rheilffordd Sewta 2006.

Mae'r gwaith arfarnu'n mynd rhagddo ar hyn o bryd a bwriedir ei gwblhau yn gynnar y flwyddyn nesaf.

## *Gofyn i'r Gweinidog dros Iechyd a Gwasanaethau Cymdeithasol*

**Dai Lloyd (Gorllewin De Cymru):** A wnaiff y Gweinidog ddatganiad am hyfforddi nyrsys yng Nghymru. (WAQ56729)

***Rhoddwyd ateb ar 30 Tachwedd 2010***

Mae Llywodraeth Cynulliad Cymru yn comisiynu lleoedd hyfforddi i nyrsys cyn cofrestru yn seiliedig ar wasanaeth integredig, gweithlu a chynlluniau ariannol. Mae Asiantaeth Genedlaethol Arwain ac Arloesi mewn Gofal Iechyd yn arwain y broses o gynllunio'r gweithlu a chontractio er mwyn sicrhau y caiff addysg o ansawdd uchel ei darparu gan y pum Prifysgol yng Nghymru.

## *Gofyn i'r Gweinidog dros Faterion Gwledig*

**Brynle Williams (Gogledd Cymru):** A wnaiff y Gweinidog ddatganiad am lwyddiannau'r cynllun Cyswllt Ffermio dros y deuddeg mis diwethaf. (WAQ56733)

***Rhoddwyd ateb ar 30 Tachwedd 2010***

Mae nifer y cofrestriadau â Cyswllt Ffermio a'r busnesau fferm a choedwigaeth sy'n cael gwasanaethau cymorth wedi cynyddu'n sylweddol yn ystod y 12 mis diwethaf, gyda chynnydd mawr yn y galw am gymorth sy'n gysylltiedig â Glastir a'r cynlluniau Cymorth i Newydd-ddyfodiaid.


Rhwng mis Tachwedd 2009 a mis Hydref 2010, cofrestrodd 2,343 o ffermwyr â gwasanaethau Cyswllt Ffermio, gan gynyddu cyfanswm y ffermwyr cofrestredig i 4,757 ers lansio cynllun newydd ym mis Gorffennaf 2008.

Ym mis Ionawr 2010, cyhoeddodd Cyswllt Ffermio gynnydd o 50% i 80% mewn gwasanaethau â chymhorthdal. Cafodd hyn effaith nodedig uniongyrchol ac amlwg ar y galw am wasanaeth Cynllun y Fferm Gyfan, Gwasanaeth Cynghori Ffermwyr a'r Rhaglen Datblygu Sgiliau.

Rhwng mis Tachwedd 2009 a mis Hydref 2010 cymeradwywyd 2,687 o geisiadau am gymhorthdal. Mae'r tabl isod yn dangos y galw am y tri gwasanaeth yn ystod y cyfnod o ddeuddeg mis hwn.

| | Cynllun y Fferm Gyfan | Rhaglen Datblygu Sgiliau | Gwasanaeth Cynghori Ffermwyr |
|---|---|---|---|
| Ceisiadau wedi'u cwblhau a dderbyniwyd yn ystod y 12 mis diwethaf | 958 | 1468 | 261 |

Mae'r graff canlynol yn dangos y gwasanaethau a ddefnyddiwyd bob mis yn ystod y deuddeg mis diwethaf.




Mae nifer y ffermwyr sy'n mynychu digwyddiadau a chyfarfodydd grwpiau trafod Cyswllt Ffermio yn parhau'n uchel gyda 14,315 o bobl yn bresennol mewn cyfanswm o 789 o ddigwyddiadau/grwpiau trafod

rhwng mis Tachwedd 2009 a mis Hydref 2010 sy'n cyfateb i 67% o'r holl bobl a oedd yn bresennol a 63% o'r digwyddiadau ers dechrau'r rhaglen.

Mae tystiolaeth anecdotaidd yn dangos bod y gwasanaeth yn cael ei groesawu gan ffermwyr sydd eisoes yn gallu gweld gwir fuddiannau'r gwasanaeth. Yn ystod y deuddeg mis diwethaf, mae'r gwasanaeth wedi cael sylw mawr yn y cyfryngau wrth i astudiaethau achos yn Gwlad a'r wasg amaethyddol ehangach ddangos yn glir y buddiannau i ffermwyr cofrestredig, sy'n amrywio o broffidioldeb uwch a chostau is i fuddiannau amgylcheddol, arallgyfeirio ac uwchsgilio.

Gan mai dim ond ers ychydig dros ddwy flynedd y mae Cyswllt Ffermio wedi bod yn weithredol a'i fod bron hanner ffordd drwy ei gyfnod, mae gwerthusiadau annibynnol o bob elfen o'r gwasanaeth yn cael eu comisiynu. Bydd hyn yn rhoi tystiolaeth o ganlyniadau gwasanaeth Cyswllt Ffermio a'r effaith ar ddyfodol y diwydiant ffermio yng Nghymru.

Mewn gwirionedd mae Cyswllt Ffermio wedi gweithio ar draws yr echel i gefnogi'r broses o weithredu cynlluniau Datblygu Gwledig eraill:

Cynllun Cymorth i Newydd-ddyfodiaid (YESS)
Ymatebodd Cyswllt Ffermio i nifer fawr o ymholiadau yn ymwneud â'r gyfran gyntaf o ymholiadau YESS a daeth mwy na 493 o ffermwyr i ddigwyddiadau Ymwybyddiaeth Strategol Cyswllt Ffermio a gynhaliwyd i hyrwyddo'r cynllun ac annog ceisiadau. Cafodd y mwyafrif o'r ceisiadau YESS a dderbyniwyd hyd yma gymorth mentora â chymhorthdal drwy wasanaeth Cynllun y Fferm Gyfan, asesiad o sgiliau wedi'i ariannu'n llawn a byddant yn cael rhagor o gymorth â chymhorthdal i ddiwallu'r anghenion hyfforddi a nodwyd drwy'r Rhaglen Datblygu Sgiliau. Mae naw seminar wedi'u trefnu ar gyfer mis Hydref a mis Tachwedd i helpu i godi ymwybyddiaeth o'r rownd nesaf o geisiadau a'r cymorth sydd ar gael gan Cyswllt Ffermio i gynorthwyo cwsmeriaid.

GLASTIR
Mae Cyswllt Ffermio yn rhoi cymorth i Glastir drwy:

- Drefnu cyfres (42) o ddigwyddiadau hyfforddi cynefin 'ar y fferm' ledled Cymru lle gall ffermwyr ddod yn gyfarwydd â Glastir
- Trefnu digwyddiadau ymwybyddiaeth strategol i egluro effaith y cynllun a phenderfyniadau rheoli busnes y mae angen i ffermwyr eu hystyried
- Defnyddio rhwydwaith o ffermydd arddangos masnachol i amlygu cyfleoedd Glastir ac annog dulliau rheoli tir priodol ar gyfer y cynllun
- Gwasanaethau â chymhorthdal (Cynllun y Fferm Gyfan a'r Gwasanaeth Cynghori Ffermwyr) gan fod nifer y ffermwyr sydd â diddordeb yn Glastir ac sy'n ystyried gwneud cais wedi cynyddu'n sylweddol.

ACRES
Mae gan ACRES gylch gwaith ehangach gan gynnwys rheoli slyri a dŵr yn well yn ogystal ag eitemau effeithlonrwydd ynni ac eitemau ynni adnewyddadwy. Bydd Cynllun y Fferm Gyfan a Gwasanaeth Cynghori Ffermwyr Cyswllt Ffermio yn bwysig i gefnogi'r broses o gyflwyno ACRES ac rydym wrthi'n cynnal trafodaethau ag ymgynghorwyr o'r sector preifat i asesu'r adnoddau sydd ar gael a materion ymarferol cyn ei gyflwyno y flwyddyn nesaf.

**Brynle Williams (Gogledd Cymru):** A wnaiff y Gweinidog roi manylion yr holl wariant ar y cymorthfeydd Glastir sydd wedi cael eu cynnal hyd yn hyn. (WAQ56734)

***Rhoddwyd ateb ar 30 Tachwedd 2010***

Fel rhan o'r trefniadau cymorth cynhwysfawr sydd wedi'u rhoi ar waith i gefnogi ffermwyr drwy'r newid i Glastir, mae 20 o gymorthfeydd Glastir wedi'u cynnal ledled Cymru ym mis Hydref a mis Tachwedd.

Mae Tabl 1 isod yn rhoi manylion am wariant cymorthfeydd Glastir. Rhennir y gwariant yn ddau gategori, costau teithio a chynhaliaeth y swyddogion sy'n cynnal y cymorthfeydd a'r gost o logi'r lleoliadau.

**Tabl 1**

| Nifer y cymorthfeydd | Nifer y bobl gofrestredig a oedd yn bresennol | Gwariant | £ |
|---|---|---|---|
| 20 | 1261 | Teithio a chynhaliaeth | 3374.38 |
| | | Lleoliad | 1182.50 |
| | | Cyfanswm | 4556.88 |
| | | Y cwsmer | 3.61 |

Cafodd y cymorthfeydd gyhoeddusrwydd yn y wasg a'r cyfryngau, drwy Wefan Llywodraeth y Cynulliad a gwefannau sefydliadau yn cynnwys Undeb Cenedlaethol yr Amaethwyr, Undeb Amaethwyr Cymru a Chymdeithas Tir a Busnes Cefn Gwlad, a thrwy Gylchgrawn yr Adran Materion Gwledig i ffermwyr yng Nghymru, Gwlad. Ni ddefnyddiwyd dulliau hysbysebu am dâl.

Mae Tabl 1 yn dangos bod y gost o gynnal y cymorthfeydd yn cyfateb i £3.61 y ffermwr sy'n gost-effeithiol iawn.

**Brynle Williams (Gogledd Cymru):** A wnaiff y Gweinidog ddatganiad am gefnogaeth Llywodraeth Cynulliad Cymru i ffermydd pysgod a physgodfeydd mewndirol. (WAQ56735)

***Rhoddwyd ateb ar 30 Tachwedd 2010***

Mae pysgodfeydd mewndirol a dyframaethu ar y tir yn elfennau allweddol o Strategaeth Pysgodfeydd Cymru a lansiwyd gennyf yn 2008. Mae'r strategaeth hon yn nodi'r fframwaith gyffredinol ar gyfer cyflwyno diwydiannau pysgodfeydd cynaliadwy ledled Cymru. Y llynedd, lansiwyd cyfres o gynlluniau gweithredu , sy'n ceisio cyflawni amcanion y Strategaeth. Mae cynlluniau gweithredu ar wahân ar gyfer pysgodfeydd mewndirol a physgodfeydd dyframaethu. Bydd fy swyddogion yn dechrau mynd ati'n fuan i weithio gyda'r diwydiant a chyrff cynrychioliadol i adolygu a diweddaru pob cynllun gweithredu.

Asiantaeth yr Amgylchedd Cymru yw'r prif asiant cyflawni ar gyfer pysgodfeydd mewndirol yng Nghymru, ac mae fy swyddogion yn gweithio'n agos gyda'r asiantaeth hon i ddatblygu mesurau sy'n cefnogi datblygiad cynaliadwy'r pysgodfeydd hyn, gan gynnwys drwy ffyrdd deddfwriaethol. Yn ogystal â physgotwyr hela a physgotwyr pysgod bras mae'r sector mewndirol yng Nghymru hefyd yn cynnwys rhwydwyr masnachol y mae eu cyfraniad i'r sector yn unigryw i Gymru ac yn rhan o'n diwylliant.

Caiff y sector pysgodfeydd mewndirol gymorth ychwanegol gan sefydliadau gwirfoddol fel Ymddiriedolaethau Afonydd a chlybiau pysgota, a chaiff dyframaethu ar y tir gymorth gan Sefydliad Cynhyrchwyr Dyframaethu Cymru.

Mae dros £6 miliwm o Gronfa Pysgodfeydd Ewrop ac arian cyfatebol gan Lywodraeth y Cynulliad wedi'i neilltuo i'w wario yn y sectorau pysgodfeydd yng Nghymru ac ar hyn o bryd mae'r gronfa yn parhau ar agor i gynigion cymwys gan y sectorau pysgota mewndirol, dyframaethu a masnachol.

**Brynle Williams (Gogledd Cymru):** A wnaiff y Gweinidog roi dadansoddiad o dderbyniadau refeniw Comisiwn Coedwigaeth Cymru ar gyfer pob un o'r tair blynedd diwethaf. (WAQ56736)

***Rhoddwyd ateb ar 30 Tachwedd 2010***

Caiff cyfrifon ac adroddiad blynyddol Comisiwn Coedwigaeth Cymru eu harchwilio'n annibynnol ac yn unol ag Atodlen 7(6) Deddf Llywodraeth Cymru 1998 eu cyflwyno wedyn i Gynulliad Cenedlaethol Cymru. Gellir lawrlwytho'r wybodaeth angenrheidiol o wefan y Comisiwn Coedwigaeth yn y cyfeiriad canlynol:
http://www.forestry.gov.uk/forestry/INFD-5VZFC